



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Pwysau Iach: Cymru Iach

Adran:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog â chyfrifoldeb:

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad Cychwyn:

17 Ionawr 2019

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

eleri.carrington@gov.wales

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae gordewdra yn her fawr i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Dangosodd y **Rhaglen Mesur Plant** (2016/17) fod 27.1% o blant pedair a phump oed yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew ac, yn ôl **Arolwg Cenedlaethol Cymru**, yn 2017-18 roedd 60% o oedolion yng Nghymru yn rhy drwm neu'n ordew.

Mae baich gordewdra ymhlith plant yn cael ei deimlo fwyaf mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gan gyfeirio at **Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**, mae 6.2% o wahaniaeth rhwng mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a mynychder gordewdra ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (14.9% ac 8.7%), ac 11% o wahaniaeth ar gyfer gordewdra ymhlith oedolion (66% a 55%).

Mae gordewdra yn arwain at risg uwch o ddiodeff o ddiabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser, ac mae'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl. Amcangyfrifir y bydd salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra yn costio mwy na £465 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru erbyn 2050, gyda chost o £2.4 biliwn i gymdeithas a'r economi.

Gosododd **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y themâu a'r cynigion y bydd angen i'r strategaeth hon fynd i'r afael â nhw.

Bydd yr ymgynghoriad yn llywio datblygiad cynllun 'Pwysau Iech: Cymru Iach'.

Bydd y cynllun yn para 10 mlynedd.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at '**Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**', sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae newid mewn ffocws ac adnoddau tuag at atal, a mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach ac yn well, yn rhan annatod o'r weledigaeth honno.

Byddwn yn profi pob math o wahanol ddulliau yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y rhain yn cynnwys y strwythurau y mae angen i ni eu rhoi ar waith i gyflwyno dull system gyfan i fynd i'r afael â gordewdra, deddfu i wella ein hamgylchedd bwyd a diod, gwella'r arlwy o ran bwyd a chyfleoedd ar gyfer gweithgarwch mewn pob math o leoliadau a rhoi gwasanaethau effeithiol ar waith i helpu pobl i gyrraedd a chynnal pwysau iach.

Casgliad

1. Sut cafodd y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae datblygiad y cynigion yn yr ymgynghoriad wedi'i gefnogi gan 'Fwrdd Strategaeth Gordewdra' cenedlaethol a oedd yn cynnwys aelodau o Gynghrair Gordewdra Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Swyddfeydd Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol a Phlant ac adrannau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys profi pob math o dystiolaeth a chynigion i ddatblygu ymgynghoriad drafft.

Ymgynghorwyd â staff a chleifion mewn Clinigau Rheoli Pwysau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hyn wedi cynnwys dau weithdy datblygu polisi gyda thros 80 o bobl a sefydliadau yn bresennol, trafodaeth ar flaenoriaethu camau gweithredu rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, y Dirprwy Brif Weithredwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cyfarfodydd bwrdd rheolaidd gyda rhanddeiliaid, cyfarfodydd â Dirprwy Gyfarwyddwyr ac arweinwyr polisi yn Llywodraeth Cymru, ymweld â grwpiau rheoli pwysau cymunedol Dechrau'n Deg i weld y gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad a phrofi cynigion gyda Phwyllgor Meddygol Cymru.

Plant a'u cynrychiolwyr

Mae fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'i datblygu i'w defnyddio mewn ysgolion ac yn y gymuned. Bydd pecyn i ysgolion ar gael hefyd i alluogi ysgolion i drafod y cynigion gyda'u disgyblion.

Mae gwaith ymgysylltu penodol mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ar y gweill ar gyfer y broses ymgynghori, ynghyd â gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda grwpiau sy'n gallu cynrychioli barn plant a phobl ifanc.

Pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae gwaith ymgysylltu cynnar wedi'i gyflawni gyda'r **Tim Cefnogi Ieuentid Ethnig** ac Anabledd Cymru i ddatblygu gwaith ymgysylltu penodol yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn yn gofyn am farn grwpiau nodweddion gwarchoddedig trwy grwpiau ffocws. Bydd cwestiwn arall yn y papur ymgynghori yn gofyn i chi nodi effeithiau gwahaniaethol posibl.

Siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg arbenigol

Bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cefnogi Cymraeg 2050 gan eu bod yn gyfle i unigolion ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau rheoli pwysau a mynediad at gyfleoedd gweithgarwch corfforol sy'n bodloni gofynion eu cymunedau, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg wrth geisio cael gwybodaeth neu drafod gwasanaethau iechyd. Yn ogystal, bydd yr ymgynghoriad yn gyfle da i glywed am y gwasanaethau yr hoffai defnyddwyr Cymraeg eu derbyn ac i archwilio ymhellach ble mae bylchau mewn gwasanaethau a darpariaethau.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gynigion sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at Safonau'r Gymraeg na'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n gyfle i unigolion ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau rheoli pwysau a mynediad at gyfleoedd gweithgarwch corfforol sy'n bodloni gofynion eu cymunedau, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg wrth geisio cael gwybodaeth neu drafod gwasanaethau iechyd. Er ei bod hi'n ymddangos yn gymharol rhwydd i ddarparu gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg h.y. dogfennau, taflenni, tudalennau gwe, rydym yn cydnabod y bydd hi'n anoddach cynnig gwasanaethau rheoli pwysau trwy gyfrwng y Gymraeg,

a bydd angen ystyried hyn ymhellach er mwyn bodloni gofynion siaradwyr Cymraeg.

Pobl eraill a all gael eu heffeithio gan y cynnig

Wrth ddatblygu'r ymgynghoriad, rydym wedi trafod dulliau posibl gyda staff a chleifion mewn clinigau rheoli pwysau y mae eu harbenigedd wedi bod yn hynod werthfawr o ran deall achosion sylfaenol gordewdra a phagamau a all helpu pobl i gynnal pwysau iach. Byddwn yn gofyn am eu barn am y cynnigion yn yr ymgynghoriad ac yn ymgysylltu â gwasanaethau rheoli pwysau cymunedol, gan gynnwys y rhai o'r sector preifat.

2. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, y rhai cadarnhaol a negyddol?

Bydd effeithiau'r ymarfer ymgynghori hwn yn ddibwys i bob pwrpas gan ein bod wrthi'n ceisio cael adborth ar d dulliau posibl ar hyn o bryd.

Yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, gallai'r effeithiau sylweddol mwyaf posibl fod fel a ganlyn.

Pobl – Dylai'r effaith fod yn sylweddol a chadarnhaol, gyda mwy o bobl yn gallu cynnal pwysau iach, gan arwain at welliannau mewn iechyd corfforol a meddyliol

Diwylliant – dim effaith sylweddol

Y Gymraeg – dim effaith sylweddol

Yr economi – Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod y cyfraniad sylweddol mae'r diwydiant bwyd yn ei wneud at allu'r boblogaeth i gynnal pwysau iach. Gallai fod effaith ar y busnesau hynny os datblygir mesurau megis labelu calorïau, gwahardd diodydd egni a hyrwyddiadau pris. Bydd yr effeithiau posibl hyn yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Byddwn yn ymgysylltu â diwydiant bwyd Cymru yn ystod y broses ymgynghori i archwilio sut y gallant helpu pobl Cymru i gynnal pwysau iach. Bydd y sgwrs honno yn gofyn am eu barn am gynigion i wella mynediad at wybodaeth am gynnwys bwyd ac i wella'r arlwy bwyd yng Nghymru i gynyddu argaeledd opsiynau iachach.

Yr amgylchedd – Gallai fod effaith gadarnhaol ar y Newid yn yr Hinsawdd os bydd y cynigion yn arwain at gynydd mewn teithio llesol a llai o ddefnydd o geir.

Effeithiau eraill – Wrth ddatblygu'r ddogfen ymgynghori, mae adborth gan randdeiliaid ac archwiliad o'r sail dystiolaeth wedi nodi pedair thema allweddol a fydd yn cael eu profi:

- Arweinyddiaeth a Galluogi Newid;
- Amgylchedd iach;
- Lleoliadau iach;
- Pobl iach.

Rydym wedi nodi hefyd fod rhai grwpiau yn wynebu risg uwch o ddod yn rhy drwm neu'n ordew:

- Menywod beichiog;
- Plant cyn ysgol;
- Y glasoed ac oedolion ifanc;
- Oedolion hŷn.

Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu'r cynllun system gyfan cyntaf i fynd i'r afael â gordewdra yng Nghymru – hyd yma, mae gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ddarparu'r Llwybr Gordewdra sydd wedi bod yn anghyson.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r cynigion drafft y byddwn yn ymgynghori arnynt yn cefnogi'r nod o Gymru iachach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn cyfrannu hefyd at y nodau o Gymru

Ffyniannus, Cymru Fwy Cyfartal a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae'r pum ffordd o weithio wedi'u cynnwys yn y cynigion ar gyfer Arweinyddiaeth a Galluogi Newid.

3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn:

- Sicrhau'r cyfraniad eithaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gyfle unigryw i gydgysylltu camau gweithredu amlsector effeithiol ar ordewdra. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldebau statudol ar gyrff sector cyhoeddus i weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu anghenion llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r achos dros newid mewn perthynas â gordewdra yn un sy'n darbwylo, ac mae'n cael effeithiau cadarnhaol ar ein llesiant ac economi ehangach Cymru. Mae cyfle da i ddefnyddio'r pwerau a'r ysgogwyr a amlinellir yn y Ddeddf i greu newid sylweddol. Yn ogystal, mae hyn yn nodi dull iechyd ataliol fel nodwedd graidd, a bydd datblygiad a darpariaeth y cynllun yn sbarduno integreiddio, cydweithredu a chyfraniad ar draws partneriaid a chymunedau eu hunain.

- osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effaith negyddol?

Byddwn yn ymgysylltu â diwydiant bwyd Cymru yn ystod y broses ymgynghori i archwilio sut y gallant helpu pobl Cymru i gynnal pwysau iach. Bydd y sgwrs honno yn gofyn am eu barn am gynigion i wella mynediad at wybodaeth am gynnwys bwyd ac i wella'r arlwy bwyd yng Nghymru i gynyddu'r opsiynau iachach sydd ar gael.

4. Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a phan ddaw i ben?

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos, a darperir ffurflen ymateb ffurfiol. Bydd gwerthusiad o effaith ar gyfer pob wythnos ymgysylltu rhanbarthol, a fydd yn llywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau i'r dyfodol.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi.

Cyhoeddir y cynllun 'Pwysau Iach: Cymru Iach' terfynol erbyn mis Hydref 2019. Bydd y cynllun yn cynnwys cynigion ar gyfer gwerthuso a monitro canlyniadau.

Bydd y cynllun yn destun adolygiad statudol bob 3 blynedd, a bydd ar waith am gyfnod o 10 mlynedd.